**Cynllun Datblygu Lleol Newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (2016-2031)**

# ADRODDIAD ARFARNU CYNALIADWYEDD Y CYNLLUN ADNAU
## CRYNODEB ANNHECHNEGOL

Mehefin 2018

**Miss J Jones**
**Pennaeth Cynllunio a Chefn Gwlad**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Uned 5
Parc Busnes Triongl
Pentre-bach
Merthyr Tudful
CF48 4TQ

**CYNNWYS** **TUDALEN**

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | Cyflwyniad | **2** |
| **2.** | Y Cynllun Datblygu Lleol | **2** |
| **3.** | Y Cynllun Adnau | **2** |
| **4.** | Yr AC a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) | **3** |
| **5.** | Camau'r AC | **4** |
| **6.** | Adroddiad Cwmpasu Gwaelodlin | **4** |
| **7.** | Fframwaith yr AC | **6** |
| **8.** | Beth sydd wedi'i asesu yn AC y Cynllun Adnau? | **6** |
| **9.** | Yr Arfarniadau | **7** |
| **10.** | AC o'r Polisïau | **8** |
| **11.** | AC o'r Dyraniadau | **9** |
| **12.** | Dadansoddiad o'r arfarniadau | **10** |
| **13.** | Y camau nesaf | **11** |

**Atodiad 1** – Crynodeb o ACau y safleoedd a ddyrannwyd

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r ddogfen hon yn grynodeb annhechnegol o'r Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) a wnaed o Gynllun Adnau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Mae'r AC yn profi beth fydd yr effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol tebygol o ddefnyddio'r Strategaeth a Ffefrir, ac yn ceisio lleihau unrhyw effeithiau negyddol, a gwneud y mwyaf o unrhyw effeithiau cadarnhaol.

## 2. Y Cynllun Datblygu Lleol

2.1 Rhaid i bob Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) cyfredol ar gyfer ei ardal. Dylai'r cynllun ddarparu'r cyd-destun ar gyfer sut y bydd cymunedau'n tyfu ac yn datblygu yn y dyfodol. Ei nod yw cynnig sicrwydd i gymunedau a buddsoddwyr ynghylch yr hyn a ganiateir neu a waherddir ar dir yr ardal o ran lleoliad a math o ddatblygiad.

2.2 Caiff CDLlau eu monitro'n flynyddol i sefydlu a ydynt yn gweithio fel y bwriadwyd. Mae CDLlau cyfredol yn rhan hanfodol o system gynllunio "sy'n dilyn cynllun", ac er mwyn sicrhau fod yna asesiad rheolaidd a chynhwysfawr a yw'r cynllun yn parhau'n gyfredol, mae'n ofynnol bod y Cyngor yn ymgymryd ag adolygiad llawn o'r CDLl a fabwysiedir bob pedair blynedd. Cafodd CDLl cyntaf Merthyr Tudful (2006-2021) ei fabwysiadu ym mis Mai 2011[1]. Ym mis Ebrill 2016, cymeradwyodd y Cyngor y dylid paratoi CDLl arall am y cyfnod 2016-2031. Ar ôl iddo gael ei fabwysiadu gan y Cyngor, bydd yn darparu fframwaith polisi ar gyfer datblygu a defnyddio tir oddi mewn i'r Fwrdeistref Sirol.

## 3. Y Cynllun Adnau

3.1 Mae'r Cyngor wedi paratoi'r Cynllun Adnau, sy'n gosod allan y dull gweithredu y mae'r CDLl yn bwriadu ei gyflawni er mwyn sicrhau fod y Fwrdeistref Sirol yn datblygu mewn modd cynaliadwy. Mae'r Cynllun Adnau'n dyrannu ac yn diogelu tir ar gyfer defnyddiau penodol ac yn cynnwys polisïau a fydd yn dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch hynny. Mae'r Cynllun Adnau'n ceisio cydbwyso'r angen am dwf yn erbyn y ffaith fod angen cynnal yr adnoddau cyfyngedig i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

[1] Cynllun Datblygu Lleol Merthyr Tudful 2006 -2021, Mai 2011

3.2 Mae'r Cynllun Adnau yn cynnwys:

- **Gweledigaeth**[2]: disgrifiad yn cynnwys nodau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol;
- **Amcanion**: ar gyfer darparu cyfleoedd i ddefnyddio tir er llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y bobl;
- **Y Strategaeth:** lefel y twf a gynigir ar gyfer y Fwrdeistref Sirol a dosbarthiad cyffredinol y twf hwnnw;
- **Dyraniadau:** yr ardaloedd o dir a ddyrennir i'w datblygu ar gyfer defnyddiau penodol megis tai a chyflogaeth. Mae rhai ardaloedd o dir hefyd yn cael eu diogelu i warchod yr amgylchedd.
- **Polisïau:** y mesurau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion, ac a fydd o gymorth i lywio penderfyniadau ynghylch datblygu'r tir yn y dyfodol.

## 4 AC a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)

4.1 Fel rhan o'r broses CDLl, rhaid i'r Cyngor gyflawni AC o'r Cynllun[3], sydd hefyd yn gorfod cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)[4]. Caiff y broses ar y cyd sy'n cynnwys yr AC a'r AAS, ei alw'n AC.

4.2 Fel rhan o'r broses AC, mae'r Cyngor wedi edrych ar yr effeithiau sylweddol tebygol o safbwynt economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol y Cynllun Adnau. Hefyd, mae wedi anelu hyd yr eithaf at leihau unrhyw effeithiau negyddol tebygol a chynyddu'r rhai cadarnhaol. At hynny, mae'r broses yn cynnwys Asesiadau Effaith ar Iechyd, Cydraddoldebau, a'r Gymraeg. Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd[5] ar wahân wedi'i gyflawni hefyd.

---

[2] Wedi'i gymryd o'r darpar Gynllun Llesiant Lleol – fe'i paratowyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

[3] Yn unol â gofynion y Ddeddf Prynu Gorfodol 2004 a'r Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (CDLl) (Cymru) 2005.

[4] Yn unol â gofynion Cyfarwyddeb AAS (2001/42/EC) a'r Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004

[5] Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010

## 5 Camau'r AC

5.1 Rhaid cyflawni'r AC mewn pum cam yn ôl yr hyn a osodwyd allan yn Llawlyfr CDLl Llywodraeth Cymru[6] fel a ganlyn:

| **Tabl 1:** Camau'r AC: pum prif gam yr AC sydd angen eu cynnwys wrth baratoi CDLl | |
|---|---|
| **Cam 1** | Gosod y cyd-destun a'r amcanion, cadarnhau'r llinell sylfaen a phenderfynu ar gwmpas |
| **Cam 2** | Datblygu a choethi opsiynau ac asesu effeithiau |
| **Cam 3** | Paratoi'r Adroddiad AC |
| **Cam 4** | Ymgynghoriad ar y SFf a'r Adroddiad AC |
| **Cam 5** | Monitro effeithiau arwyddocaol gweithredu'r CDLl |

5.2 Mae'r Cyngor wedi cwblhau Cam 1 trwy gyhoeddi Adroddiad Cwmpasu Gwaelodlin yr AC[7]. Cafodd yr adroddiad ei anfon allan i Ymgyngoreion Statudol ym mis Tachwedd 2016 a'i ddiwygio yng ngoleuni'r sylwadau a ddaeth i law. Mae fersiwn lawn Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol yn cwblhau Cam 2, ac mae'r ymgynghoriad ar y ddogfen honno yn cwblhau Cam 3 a rhan gynnar Cam 4. Mae AC y Cynllun Adnau yn barhad o Gam 4.

## 6 Adroddiad Cwmpasu Gwaelodlin yr AC

6.1 Yn ystod 2016, dechreuodd y Cyngor gasglu data am gyflwr economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y Fwrdeistref Sirol, oddi wrth bolisïau, rhaglenni a chynlluniau allweddol a gynhyrchwyd ar lefel ryngwladol, genedlaethol a lleol. Cafodd y wybodaeth hon ei gosod at ei gilydd yn Adroddiad Cwmpasu Gwaelodlin yr AC. Cafodd yr holl dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr adroddiad ei hasesu ac mae'r materion a'r cyfleoedd cynaliadwy allweddol canlynol sy'n effeithio ar y Fwrdeistref Sirol, yn cael eu gosod allan yn Nhabl 2.

[6] Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol 2015

[7] Arfarniadau o Gynaliadwyedd (yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, Asesiad Effaith Iechyd ac Asesiad Effaith Cydraddoldebau) – Adroddiad Cwmpasu Gwaelodlin AC Terfynol, Ionawr 2017

| **TABL 2:** Materion Cynaliadwyedd Allweddol/Cyfleoedd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
|---|
| ◆ Bydd rhaid i wasanaethau cymunedol a chyfleusterau presennol tebyg i addysg, iechyd a hamdden fedru rheoli'r newidiadau yn y boblogaeth neu bydd angen gwasanaethau a chyfleusterau newydd. |
| ◆ Gallai cynigion datblygu arwain at aneddiadau'n ymgyfuno neu at newid arwyddocaol yn nodweddion y gymuned. |
| ◆ Mae amcanestyniadau poblogaeth diweddaraf Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd y boblogaeth yn gostwng o 2024 ymlaen ac y bydd pobl o oedran gwaith yn symud i fannau eraill yn y DU. |
| ◆ Mae lefel amddifadedd yn uwch yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol ac nid oes gan rai wardiau ddigon o fannau agored, safonol. |
| ◆ Yr angen am gartrefi cymdeithasol, fforddiadwy ac ar gyfer pobl hŷn. |
| ◆ Ansawdd ac effeithlonrwydd ynni'r "stoc" dai presennol. Bydd angen adeiladu tai o well ansawdd. |
| ◆ Ychydig iawn o ddatblygiadau newydd sydd wedi cael eu hadeiladu ar dir cyflogaeth dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae'r nifer o unedau masnachol, gwag yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yng Nghymru. |
| ◆ Nifer bychan o bobl sy'n cerdded neu'n beicio ar daith sy'n fyrrach na 5km. Nid yw llwybrau beicio a cherdded wedi'u cydgysylltu'n dda, ac mae teithio o'r dwyrain i'r gorllewin yn anodd. |
| ◆ Cynigir gorsaf bysiau ganolog newydd. Bydd prosiect Metro De Cymru yn gwella teithiau i Gaerdydd. Gallai'r rheilffordd gael ei defnyddio i gludo deunyddiau crai. Mae rhwydwaith cyfleusterau gwastraff da yn bodoli. |
| ◆ Y defnydd o ynni cartref yw prif achos allyriadau GHG[8] yn lleol. Mae angen mwy o ffynonellau ynni adnewyddadwy. |
| ◆ Mae newid yn yr hinsawdd yn rhoi pwysau ar rywogaethau, cynefinoedd ac adnoddau dŵr. Defnydd tanwydd trafnidiaeth yw achos eilaidd GHG yn lleol. Cafodd Bryn Twynyrodyn ei ddatgan i fod yn Ardal Rheoli Ansawdd Awyr (ARhAA). Mae hafau hirach wedi cynyddu'r tymor ar gyfer twristiaid. |
| ◆ Ceir amrywiaeth eang o rywogaethau a chynefinoedd sydd wedi'u peryglu. Nid yw rhai coridorau gwyrdd a mannau gwyrdd yn cydgysylltu â'i gilydd. |
| ◆ Mae angen gwella cyrff dŵr daear a chyrff dŵr wyneb, yn enwedig Nant Morlais, o ganlyniad i gwymp yn ansawdd y dŵr. |
| ◆ Nodwyd bod rhannau o ganol y dref mewn perygl o lifogydd. |
| ◆ Mae angen gwaith cadwraethol gofalus ar ddynodiadau treftadaeth cenedlaethol a lleol sy'n seiliedig ar ddiwydiannau haearn a glo'r gorffennol. |
| ◆ Diogelir adnoddau mwynol a leolir y tu allan i aneddiadau. Mae cynllun adfer tir Ffos-y-frân yn mynd yn ei flaen ac mae caniatâd ar gyfer rhai cronfeydd mwynol o hyd. |
| ◆ Mae llai na 10% yn medru cyfathrebu yn y Gymraeg sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. |
| ◆ Mae angen diogelu ardaloedd tirweddol o ansawdd uchel, golygfeydd amlwg a ffiniau caeau traddodiadol. |

[8] Nwyon Tŷ Gwydr (GHG) - nwy sy'n trapio gwres yn yr atmosffer fel gwydr mewn tŷ gwydr (trwy amsugno ac allyrru ymbelydredd o fewn yr ystod is-goch thermol), a thrwy hynny'n cynhesu'r ddaear

## 7 Fframwaith yr AC

7.1 Ar sail y materion uchod, crëwyd 18 o amcanion cynaliadwyedd. Gwnaeth y rhain ffurfio sylfaen yr AC ac fe'u defnyddiwyd i asesu a yw'r Cynllun Adnau'n debygol o gael effaith sylweddol ar faterion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol fel a ganlyn:

1. Sicrhau fod anghenion cymunedol ac isadeiledd cymdeithasol yr holl breswylwyr a chymunedau yn cael eu bodloni.
2. Cynnal a gwella cymuned a hunaniaeth aneddiadau.
3. Cefnogi lefel gynaliadwy o dwf yn y boblogaeth.
4. Gwella iechyd a llesiant pobl a gostwng anghydraddoldebau.
5. Diwallu anghenion tai i bawb drwy gymysgedd o ddaliadaethau a mathau o annedd.
6. Gwella'r stoc tai o ran ei hansawdd a'i heffeithlonrwydd cyffredinol.
7. Gwella pa mor ddeniadol yw'r Fwrdeistref Sirol i gefnogi datblygiad economaidd.
8. Lleihau'r angen i deithio ac annog moddau cynaliadwy o drafnidiaeth.
9. Sicrhau bod gwasanaethau hanfodol ac isadeiledd ar gael i ddiwallu anghenion pawb.
10. Isafu'r defnydd o ynni a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy.
11. Cyfrannu cyn lleied â phosibl at newid yn yr hinsawdd a'i wrthsefyll hyd yr eithaf.
12. Cynnal a gwella bioamrywiaeth a chysylltedd yr ecosystem.
13. Isafu'r galw am ddŵr a gwella amgylchedd y dŵr.
14. Isafu'r risg o lifogydd.
15. Amddiffyn a gwarchod y pridd a diogelu'r adnoddau mwynol.
16. Amddiffyn a gwella'r asedau treftadaeth sy'n diffinio'r Fwrdeistref Sirol fel y dref Gymreig fwyaf arwyddocaol o'r Chwyldro Diwydiannol.
17. Hwyluso gwasanaethau ac adnoddau sy'n cefnogi diwylliant lleol nodedig a'r Gymraeg.
18. Amddiffyn a gwella ansawdd yr ardaloedd a ddynodwyd fel rhai sy'n cynnwys tirluniau gwerthfawr a threfluniau o safon.

## 8 Beth gafodd ei asesu yn AC y Cynllun Adnau?

- Gweledigaeth
- Strategaeth
- Amcanion
- Dyraniadau Safle
- Polisïau
- Effaith Gyffredinol

## 9 Yr Arfarniadau

9.1 Cynhaliwyd Asesiad o Gynaliadwyedd y Cynllun Adnau yn fewnol gan swyddogion y Cyngor trwy asesu gwahanol elfennau'r CDLl yn erbyn amcanion yr AC. Mae'r adran ganlynol yn cynnwys crynodebau o ganfyddiadau'r AC a wnaed o'r Cynllun Adnau. Mae'r asesiadau llawn i'w gweld yn yr adroddiad llawn ar AC y Cynllun Adnau.

**AC o'r Weledigaeth**

9.2 Yn gyffredinol, mae'r weledigaeth yn perfformio'n dda yn erbyn y rhan fwyaf o Amcanion yr AC, yn enwedig yn erbyn y rheini sy'n berthnasol i Gymunedau, Tai a'r Economi, a Chyflogaeth.

**AC o Amcanion y Cynllun Adnau**

9.3 Diben amcanion y Cynllun Adnau yw gosod allan sut y caiff y weledigaeth ei chyflawni trwy ddarparu egwyddorion arweiniol trosfwaol a fydd yn arwain at gyfleoedd i ddefnyddio'r tir er llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y bobl. Maen nhw'n gosod y cyd-destun ar gyfer datblygu Strategaeth y CDLl ac yn darparu fframwaith ar gyfer adeiladu polisi'r Cynllun Adnau.

**Arfarnu Cydnawsedd Amcanion y CDLl ac Amcanion yr AC**

**Matrics 7.1:** AC o Amcanion y CDLl Adnau
Cydnawsedd Amcanion y CDLl Adnau ag Amcanion yr AC

| Symbol | ++ Cadarnhaol | + Cydnaws | 0 Niwtral | ? Ansicr | - Gwrthdaro Posibl | -- Anghydnaws |
|---|---|---|---|---|---|---|

| Amcanion yr AC | Amcanion y Cynllun Adnau | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 |
| 1 | ++ | 0 | + | + | ++ | + | + | ++ | + | 0 | 0 | + | + | ++ | + | + | 0 | ++ |
| 2 | ++ | + | ++ | ++ | + | + | + | ++ | + | 0 | + | 0 | + | ++ | ++ | 0 | 0 | 0 |
| 3 | ++ | + | ++ | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | ++ | + | + | 0 | + |
| 4 | + | 0 | + | + | ++ | + | + | + | 0 | + | + | + | 0 | + | + | + | 0 | 0 |
| 5 | ++ | 0 | ++ | + | + | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | + | 0 | + |
| 6 | ++ | 0 | ++ | + | + | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | ++ | 0 | + |
| 7 | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | ++ | ++ | ++ | ++ | + | + | + |
| 8 | ++ | 0 | + | ++ | + | + | + | 0 | 0 | + | + | 0 | 0 | ++ | 0 | ++ | 0 | 0 |
| 9 | ++ | 0 | ++ | ++ | ++ | 0 | + | + | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | + | 0 | ++ |
| 10 | 0 | 0 | + | + | + | + | + | + | 0 | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | ++ | 0 | + |
| 11 | 0 | 0 | + | + | + | + | + | + | 0 | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | ++ | 0 | + |
| 12 | + | 0 | + | + | + | 0 | + | + | + | ++ | ++ | 0 | + | + | + | + | 0 | 0 |
| 13 | 0 | 0 | + | 0 | + | + | 0 | + | 0 | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | ++ | 0 | 0 |
| 14 | + | 0 | + | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 15 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | ++ | + |
| 16 | + | 0 | + | + | 0 | + | 0 | 0 | ++ | + | + | 0 | + | + | + | 0 | 0 | 0 |
| 17 | + | ++ | 0 | 0 | + | 0 | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | 0 | 0 | 0 |
| 18 | + | 0 | ++ | ++ | + | + | + | + | + | + | ++ | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 |

9.5 Mae'r Cynllun Adnau'n cynnwys 18 o amcanion a chawsant eu profi yn erbyn amcanion yr AC a ganfu fod holl amcanion y CDLl wedi integreiddio egwyddorion cynaliadwyedd yn llwyddiannus. Felly, nid oes yr un ohonynt yn anghydnaws wrth eu profi yn erbyn amcanion yr AC, yn enwedig mewn perthynas ag amcanion cymdeithasol ac economaidd y Cynllun Adnau a lle mae amcanion y CDLl a'r AC yn delio â'r un materion penodol megis tirlun a bioamrywiaeth.

**AC o Strategaeth y Cynllun Adnau**

9.6 Un o fanteision dilyn lefel twf cynaliadwy yn y boblogaeth yw bod y Cyngor yn cael hyblygrwydd i ganolbwyntio ar gyflawni'r twf hwnnw yn y modd a/neu'r ardaloedd mwyaf priodol.

9.7 Felly, roedd angen ystyried sut y diffiniwyd gwahanol ardaloedd y Fwrdeistref Sirol yn y CDLl a sut y mae hyn yn effeithio ar strategaeth y Cynllun.

9.8 Rhoddwyd sylw arbennig i nifer yr anheddau a ddyrannwyd yn ardal Treharris/ Trelewis o'i gymharu ag ardal y Cymoedd Canol sy'n cynnwys Troed-y-rhiw, Ynysowen, Aber-fan a Bedlinog. O gofio'r cyfyngiadau ffisegol yng nghwm isaf y Fwrdeistref Sirol, a'r ffaith fod mwyafrif y dyraniadau presennol yr ardal honno eisoes wedi'u dosbarthu, mae'n amheus a fyddai lefel y datblygiad a gynigir mewn Cynllun newydd yn cyfiawnhau gwahaniaethu rhwng Treharris/Trelewis a chymunedau'r Cwm Canol, ac o'r herwydd, ystyrir ei fod yn fwy priodol cyfuno'r rhain fel ardaloedd twf "Arall".

9.9 Mae asesiad llawn o'r Strategaeth, a'r holl opsiynau strategaeth eraill i'w gweld yn yr Adroddiad AC Cychwynnol.

## 10 AC o Bolisïau'r Cynllun Adnau

| **Matrics 2:** AC o Bolisïau'r Cynllun Adnau<br>Cydnawsedd Polisïau'r Cynllun Adnau ag Amcanion yr AC | | |
|---|---|---|
| **Cadarnhaol** | ++ | Bydd y Polisi'n rhoi cryn hwb i'r amcan cynaliadwyedd |
| **Cydnaws** | + | Bydd y Polisi'n rhoi hwb i'r amcan cynaliadwyedd i ryw raddau |
| **Niwtral** | 0 | Dim effaith neu effaith niwtral – ni fydd y Polisi'n effeithio ar yr amcan cynaliadwyedd |
| **Ansicr** | ? | Bydd y Polisi'n cael effaith ansicr ar yr amcan cynaliadwyedd |
| **Gwrthdaro posibl** | - | Bydd y Polisi'n gwrthdaro â'r amcan cynaliadwyedd i ryw raddau |
| **Anghydnaws** | -- | Bydd y Polisi'n gwrthdaro cryn dipyn â'r cynaliadwyedd |

**FFIGUR 1:** Cydnawsedd Polisïau'r Cynllun Adnau ag Amcanion yr AC

| AMCANION AC | SW | | | | | | | | | | | | | CW | | EnW | | | | | EcW | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 1 | 2 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 1 | + | + | + | + | + | ++ | 0 | + | ++ | + | 0 | + | ++ | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + |
| 2 | 0 | 0 | ++ | ++ | + | + | + | + | + | + | ++ | + | + | + | ++ | + | + | + | 0 | + | 0 | + | + | 0 | + | + | ++ | + | 0 | 0 | + | 0 | 0 | + |
| 3 | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | 0 | 0 | ++ | + | 0 | ++ | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ++ | + | + | + | + | + | 0 | + | 0 | + | + | 0 | 0 | + |
| 4 | + | + | + | 0 | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | ++ | + | + | 0 | + | 0 | + | + | + | 0 | + | 0 | + | + | 0 | + |
| 5 | ++ | ++ | ++ | + | ++ | ++ | + | ++ | ++ | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 6 | + | + | + | 0 | + | + | 0 | 0 | + | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 7 | ++ | ++ | + | 0 | + | ++ | + | 0 | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 8 | + | + | ++ | ++ | + | ++ | 0 | + | + | + | + | ++ | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | + | + | ++ | ? | 0 | + | ? | 0 | 0 | + |
| 9 | + | + | + | + | + | + | 0 | + | ++ | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + |
| 10 | 0 | 0 | - | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ++ | ++ | 0 | 0 | 0 | 0 | + |
| 11 | 0 | 0 | - | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | + | + | + | ++ | + | ? | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 12 | + | + | + | + | 0 | + | ? | 0 | + | + | + | + | 0 | + | + | ++ | ++ | ++ | + | + | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | - | 0 | - | - | 0 | 0 | + |
| 13 | ? | ? | ? | 0 | ? | ? | + | 0 | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | ++ | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 14 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | + | 0 | 0 | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | ++ | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 15 | ++ | ++ | + | ++ | ++ | ++ | + | 0 | + | + | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | + | + | + | + | 0 | + | 0 | + | 0 | ++ | ? | 0 | ++ | ++ | 0 | ++ | 0 |
| 16 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | + | + | 0 | + | + | + | 0 | 0 | ++ | ++ | + | + | + | 0 | + | 0 | 0 | + | 0 | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 17 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 18 | 0 | 0 | 0 | ++ | ? | + | + | 0 | + | + | + | + | 0 | + | + | + | + | + | + | ++ | ? | 0 | + | 0 | + | + | ++ | - | 0 | - | - | 0 | 0 | + |

10.1 Mae'n debygol y caiff polisïau arfaethedig y Cynllun Adnau effaith gyffredinol bositif pan gânt eu hasesu yn erbyn fframwaith yr AC.

10.2 Canfyddiad allweddol nifer o bolisïau arfaethedig megis "SW9: Rhwymedigaethau Cynllunio" a "SW11: Dylunio Cynaliadwy a Chreu Lleoedd", yw bod yr effeithiau a asesir yn gadarnhaol i raddau helaeth. Fodd bynnag, bydd gwir lwyddiant y polisïau'n gysylltiedig â pha mor gadarn ac effeithiol y cânt eu gweithredu ar ôl mabwysiadu'r CDLl. Bydd hwn yn fater y bydd angen ei fonitro'n agos trwy gydol oes y Cynllun.

10.3 Roedd rhai o ganfyddiadau negyddol yr asesiad hwn yn ymwneud â pholisïau a oedd yn cynnig rhyw fath o ddatblygiad adeiledig [megis tai (SW3) neu ddatblygiadau ynni adnewyddadwy (EcW8)], a'u heffaith ar faterion megis newid yn yr hinsawdd, ecoleg a thirwedd (Amcanion 11, 12 a 18). Er bod y polisïau hyn yn gofyn am leihau a lliniaru effeithiau lle bo modd, mae'r effeithiau negyddol hyn yn nodweddiadol o'r effeithiau penodol a ddaw yn sgil datblygiadau adeiledig o'r fath. At ei gilydd, mae effaith polisïau'r Cynllun Adnau yn gadarnhaol.

10.4 Mae asesiadau llawn y polisïau arfaethedig i'w gweld yn Atodiad 4 yr Adroddiad AC.

## 11 AC o Ddyraniadau'r Cynllun Adnau

11.1 Mae Atodiad 1 y ddogfen hon yn dangos canlyniadau cryno'r broses arfarnu safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer safleoedd unigol. Dangosir yr Arfarniadau Llawn o Gynaliadwyedd y Safleoedd yn Atodiad 6 yr Adroddiad AC.

## 12 Dadansoddiad o'r Arfarniadau a'r Effeithiau Cyffredinol

Sut mae'r AC wedi dylanwadu ar y Cynllun Adnau

12.1 Bu'r arfarniad systematig o'r amrywiol gydrannau sy'n llunio'r Cynllun Adnau o gymorth wrth ddatblygu Cynllun sy'n gyson â'r Fframwaith Cynaliadwyedd a osodir allan yn Adroddiad Cwmpasu'r AC. Mae'r AC wedi cynorthwyo i ddatblygu polisïau a dyraniadau ar gyfer y CDLl Adnau ac mae'n ceisio lliniaru unrhyw effeithiau negyddol sylweddol a ganfuwyd trwy'r broses AC.

Effeithiau Sylweddol Tebygol y Cynllun Adnau

12.2 Wrth i'r cynllun ddatblygu, gellir mynegi barn well am unrhyw effeithiau negyddol a phenodol a gaiff y CDLl ar Amcanion yr AC ynghyd â ffyrdd o'u lliniaru neu'u gwella. Isod, ceir arfarniad cryno o unrhyw Effeithiau Sylweddol Tebygol a ganfuwyd gan y broses AC:

**Tabl 3:** Dadansoddiad o Arfarniadau'r Cynllun Adnau

| Cynllun Adnau | Effeithiau Arwyddocaol Tebygol | Ystyriaeth o ffyrdd i liniaru effeithiau negyddol |
|---|---|---|
| Gweledig-aeth | Yn gyffredinol, mae'r weledigaeth yn perfformio'n dda yn erbyn y mwyafrif o Amcanion yr AC, yn enwedig y rheini sy'n cyfeirio at Gymunedau, Tai, yr Economi a Chyflogaeth. Mae hyn i'w ddisgwyl gan gynllun sy'n cynnig lefel gynaliadwy o dwf poblogaeth a'r datblygiad disgwyliedig sy'n gysylltiedig â strategaeth o'r fath. | Gan fod y weledigaeth yn nodi fframwaith trosfwaol ar gyfer datblygiad, bydd ffyrdd o ddatrys gwrthdaro a/neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu hateb trwy asesu polisïau a dyraniadau'r Cynllun Adnau. |
| Amcanion | Pan y'u profwyd yn erbyn amcanion yr AC, canfuwyd fod pob un o amcanion y Cynllun Adnau wedi integreiddio egwyddorion cynaliadwyedd yn llwyddiannus. Golyga hyn nad oes yr un ohonynt yn anghydnaws, yn enwedig parthed amcanion cymdeithasol ac economaidd y Cynllun a lle mae amcanion y Cynllun a'r AC yn ymdrin â'r un materion penodol megis tirwedd a bioamrywiaeth. | Gan fod yr amcanion yn ffurfio rhan o'r fframwaith trosfwaol, bydd ffyrdd o ddatrys problemau a/neu liniaru effeithiau negyddol yn cael eu cyfeirio trwy asesiad o bolisïau a dyraniadau'r Cynllun Adnau. |
| Strategaeth | Mae ansicrwydd gyda materion tebyg i newid yn yr hinsawdd, ynni a'r defnydd o ddŵr. Fodd bynnag, mae hyn i'w ddisgwyl gan unrhyw gynllun sy'n argymell tyfiant. Mae'r opsiwn hwn yn | At ei gilydd, bernir bod y Strategaeth yn cael effaith gadarnhaol wrth asesu yn erbyn fframwaith yr AC. Caiff yr effeithiau negyddol |

| | | |
|---|---|---|
| | debygol o arwain at ddefnydd uwch o ynni na'r lefelau presennol ac mae'n debygol y bydd mwy o alw am ddŵr. Bydd hynny'n debyg o greu effaith negyddol a allai fod yn anodd ei datrys. Bydd rhywfaint o wrthdaro gydag ystyriaethau amgylcheddol. Bydd gofyn i'r lefel arfaethedig o ddatblygiad a gynigir dderbyn mesurau lliniaru er mwyn gweld ei effaith ar yr amgylchedd ddŵr. | posibl eu lliniaru trwy weithredu polisïau'r Cynllun Adnau yn gadarn. |
| Polisïau | Mae polisïau arfaethedig y Cynllun Adnau yn debygol o gael effaith gadarnhaol gyffredinol pan gânt eu hasesu yn erbyn fframwaith yr AC. Roedd rhai o ganfyddiadau negyddol yr asesiad hwn mewn perthynas â pholisïau a oedd yn cynnig rhyw fath o ddatblygiad adeiledig [megis tai (SW3) neu ddatblygiadau ynni adnewyddadwy (EcW8)], a'u heffaith ar faterion megis newid yn yr hinsawdd, ecoleg a thirwedd (Amcanion 11, 12 ac18). | Cafodd mesurau lliniaru eu hystyried wrth asesu'r polisïau'n fanwl a'u cynnwys lle bo modd. Bydd gweithredu polisïau'r Cynllun Adnau'n gadarn yn allweddol wrth liniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl. |
| Dyraniadau | Nid yw'n bosibl wrth lunio cynllun i wybod yn union pa fath o ddatblygiad a fydd yn mynd ar bob safle; er enghraifft, pa gyfuniad o dai, cyflogaeth a seilwaith y bydd datblygwr yn ei gynnig wrth wneud cais cynllunio neu pa gynllun a dyluniad y bydd yn ei gynnig ar gyfer y safle. Gwnaeth yr arfarniadau o'r safleoedd dyranedig ganfod effeithiau negyddol posibl ar nifer ohonynt. Bydd polisïau'r Cynllun Adnau yn hollbwysig wrth sicrhau bod yr effeithiau negyddol hyn yn cael eu lliniaru, a bod yr effeithiau cadarnhaol a nodir yn yr ACau yn cael eu hyrwyddo i'r eithaf. | Bydd gweithredu polisïau'r Cynllun Adnau yn gadarn (yn enwedig SW9, SW11 a'r polisïau amgylcheddol) yn allweddol wrth liniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl. |
| Casgliad | At ei gilydd, ystyrir bod gweledigaeth, amcanion, strategaeth, polisïau a dyraniadau'r CDLl Adnau wedi'u paratoi mewn modd sy'n rhoi sylw agos i egwyddorion cynaliadwyedd. Byddai'r strategaeth twf a gofodol a gynigir, a'r polisïau a'r dyraniadau a ddefnyddir i weithredu'r Cynllun hwn, yn arwain at Gynllun Datblygu Lleol sy'n ceisio rheoli datblygiadau a gwella'r Fwrdeistref Sirol mewn ffordd gynaliadwy yn unol ag amcanion yr AC. | Bydd gweithredu polisïau'r Cynllun Adnau yn gadarn yn allweddol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl. |

## Y Camau Nesaf

13.1 Mae'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd wedi'i ddefnyddio wrth baratoi fersiwn Adnau o'r CDLl Amnewid 2016 – 2031. Ar ôl mabwysiadu fersiwn terfynol y cynllun amnewid, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cyhoeddi "Datganiad AAS" a fydd yn esbonio sut mae'r AC wedi dylanwadu ar y CDLl.

## Atodiad 1 – Crynodeb o ACau y safleoedd dyranedig

| Cydnawsedd Dyraniadau'r Cynllun Adnau ag Amcanion yr AC | | |
|---|---|---|
| **Cadarnhaol** | ++ | Bydd y Dyraniad yn rhoi cryn hwb i'r amcan cynaliadwyedd |
| **Cydnaws** | + | Bydd y Dyraniad yn rhoi hwb i'r amcan cynaliadwyedd i ryw raddau |
| **Niwtral** | 0 | Dim effaith neu effaith niwtral – ni fydd y Dyraniad yn effeithio ar yr amcan cynaliadwyedd |
| **Ansicr** | ? | Bydd y Dyraniad yn cael effaith ansicr ar yr amcan cynaliadwyedd |
| **Gwrthdaro posibl** | - | Bydd y Dyraniad yn gwrthdaro â'r amcan cynaliadwyedd i ryw raddau |
| **Anghydnaws** | -- | Bydd y Dyraniad yn gwrthdaro cryn dipyn â'r amcan cynaliadwyedd |

| Crynhoi canfyddiadau'r arfarniad o'r safleoedd dyranedig – yn ôl Ward | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Safleoedd a ddyrannwyd yn ôl Ward** | | | **Amcanion yr AC** | | | | | | | | | | | | | | |
| **Safle Ymgeisiol/ Rhif Cyfeirnod yr Asesiad** | **Rhif Dyraniad Polisi'r CDLl** | **Enw'r Safle / Lleoliad** | **1** | **2** | **4** | **5** | **8** | **9** | **10** | **11** | **12** | **13** | **14** | **15** | **16** | **17** | **18** |
| **Bedlinog: 5, 7 a 118** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 120 (gan gynnwys safle 5) | SW3.29 | Tir yn agos i Heol Gelli-gaer, Llancaeach | - | + | + | ++ | - | ? | ? | - | - | ? | ? | -- | 0 | + | - |
| 7 | SW3.30 | Tir ym Mhentref Gardd Taf Merthyr ("Storm Town") | + | + | + | ++ | - | ++ | ? | - | ? | ? | + | -- | 0 | + | ? |
| 118 | SW3.31 | Cwmfelin | - | ++ | + | ++ | - | ++ | ? | - | - | ? | 0 | -- | - | + | ? |
| **Cyfarthfa: 13 – 18, 106, 107, 108 a 112** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 15 | SW3.5 | Tir yn Erw Las, Gelli-deg | + | ++ | + | + | + | ++ | ? | - | ? | 0 | ? | -- | 0 | + | ? |
| 119 (gan gynnwys safle 17) | SW3.4 | Brondeg | + | ++ | + | ++ | + | ++ | ? | - | ? | 0 | ? | -- | 0 | + | ? |
| 18 | SW3.3 | Llwyfandir Georgetown Uchaf | ++ | ++ | + | ++ | + | ++ | ? | ++ | 0 | 0 | + | ++ | 0 | + | ? |
| 106 | SW3.7 | Winchfawr, Cyfarthfa | + | + | + | ++ | + | ++ | ? | - | 0 | 0 | + | -- | 0 | + | ? |
| 107 | SW3.6 | Cefn y Bannau, Cyfarthfa | - | + | + | + | + | ++ | ? | ++ | 0 | 0 | + | ++ | 0 | + | + |
| 108 | SW3.8 | Tir i'r De o Barc y Castell, Twyn Carmel | - | + | + | ++ | + | ++ | ? | - | 0 | 0 | + | -- | 0 | + | - |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 112 | SW3.9 | Cwrt Cyfarthfa | - | ++ | + | + | + | ++ | ? | ++ | 0 | 0 | + | ++ | 0 | + | + |
| **Dowlais: 32 – 38, 110, 113 a 114** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 32 | SW3.11 | Stryd y Dwyrain, Dowlais | + | + | + | + | + | ++ | ? | + | 0 | 0 | + | ++ | + | + | ? |
| 35 | SW3.10 | Clos Trefor, Pant | + | + | + | + | + | ++ | ? | + | 0 | 0 | ? | ++ | 0 | + | + |
| 36 | EcW1.4 | Tir i'r Dwyrain o'r A4060 yn Ffos-y-frân | - | ++ | + | 0 | - | ++ | ? | ++ | + | ? | ? | ++ | 0 | + | + |
| 110 (safle 33 a 79) | EcW1.3 | Heol Melin yr Afr (Cyflogaeth) | - | ++ | + | 0 | - | ++ | ? | ++ | ? | ? | ? | ++ | 0 | + | + |
| 113 | SW3.12 | Eglwys Sant Ioan, Dowlais | + | + | + | + | + | ++ | ? | ++ | 0 | 0 | + | ++ | + | + | + |
| 114 | SW3.13 | Tŷ Fictoria, Dowlais | + | + | + | + | + | ++ | ? | + | 0 | 0 | + | ++ | 0 | + | + |
| **Gurnos: 43 a 109** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 43 | SW3.14 | Caeau Pen-y-dre | + | ++ | + | + | + | ++ | ? | - | 0 | 0 | 0 | -- | 0 | + | ? |
| 109 | SW3.15 | Safle Ysgol Gynradd Goetre | + | ++ | ? | ++ | + | ++ | ? | + | 0 | 0 | 0 | + | - | + | ? |
| **Ynysowen: 44, 48 a 105** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 44 | SW3.26 | Cyn safle Pwll Glo Ynysowen, Aber-fan | + | ++ | + | ++ | ++ | ++ | ? | ++ | 0 | ? | ? | | ? | + | ? |
| 48 | SW3.28 | Tir gyferbyn â Theras Kingsley, Aber-fan | + | ++ | + | + | ++ | ++ | ? | - | 0 | 0 | + | -- | 0 | + | ? |
| 105 | SW3.27 | Teras Walter, Aber-fan | + | ++ | + | + | ++ | ++ | ? | + | 0 | 0 | + | + | 0 | + | + |
| **Parc: 49-52, 54 a 57** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 49, 50, 51, 54, 57 | CW2 | Ardal Treftadaeth Cyfarthfa | + | + | ++ | 0 | ++ | ++ | ? | ++ | + | 0 | 0 | ++ | + | + | + |
| 52 | SW3.16 | Cyn Gartref Gofal /Ysbyty Cyffredinol Merthyr, Heol Penydarren | ++ | + | + | + | + | ++ | ? | ++ | 0 | 0 | ? | ++ | + | + | + |
| **Penydarren: 59** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 59 | SW3.17 | Parc Brif yr Allt/Teras Haydn | + | ++ | + | ++ | + | + | ? | - | ? | 0 | 0 | -- | 0 | + | ? |
| **Plymouth: 30, 70 – 76** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 70 | EcW1.2 | Safle Hoover 1 | - | + | + | + | + | ++ | ? | ++ | 0 | 0 | + | ++ | 0 | + | + |
| 76 | EcW1.5 | Tir i'r De o Barc Diwydiannol Merthyr Tudful/Sekisui | + | ++ | -- | 0 | + | ++ | ? | - | ? | ? | ? | -- | 0 | + | ? |
| 104 gan gynnwys 30 | SW6, SW3.1 ac | Ardal Adfywio Strategol Hoover (HSRA) | + | + | ++ | ++ | + | ? | ? | ? | 0 | ? | ? | + | ? | + | |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| (rhan), 70, 71, 72, 79, 74 a 75 | EcW1.1 | | | | | | | | | | | | | | | | ? |
| 115 | SW3.18 | Cyn Eglwys Sant Pedr a Sant Paul, Abercannaid | + | + | + | + | + | ++ | ? | ++ | 0 | 0 | + | ++ | - | + | + |
| **Tref: 79, 80, 82, 84-90, 116 a 117** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 80, 82 (rhan), 84 | SW3.24 | Cyn Safle Ysgol Santes Tudful, Heol y Frenhines | ++ | ++ | + | + | + | ++ | ? | ++ | 0 | 0 | + | ++ | ? | + | + |
| 121 (gan gynnwys safle 86) | SW3.21 | Gerddi Bradley Dau | ++ | + | + | ++ | + | ? | ? | - | 0 | - | ? | -- | 0 | + | ? |
| 88 | SW3.19 | Penheolferthyr, Twynyrodyn | + | ++ | + | ++ | + | ++ | ? | - | 0 | 0 | ? | -- | 0 | + | - |
| 89 ac 83 | SW3.23 | Cyn Neuadd y Glowyr, Stryd yr Eglwys | ++ | ++ | + | + | + | ++ | ? | ++ | 0 | 0 | + | ++ | ++ | + | + |
| 90 | SW3.22 | Cyn Ysbyty Santes Tudful | ++ | ++ | ? | ++ | ++ | ++ | ? | + | 0 | 0 | ? | ++ | ? | + | + |
| 91 | SW12.2 | Cyn Safle'r Hollies/Gorsaf yr Heddlu (Safle Gorsaf Bysiau Newydd) | ++ | ++ | + | 0 | ++ | ++ | ? | ++ | 0 | ? | 0 | ++ | 0 | + | + |
| 116, 87 (rhan) | SW3.20 | Cyn Ysbyty Maerdy/Heol Glasier | ++ | ++ | + | ++ | + | ++ | ? | ? | ? | 0 | 0 | ? | 0 | + | - |
| 117 | SW3.25 | Maes Sandbrook | ++ | ++ | + | + | + | ++ | ? | ++ | 0 | 0 | + | ++ | ? | + | + |
| **Treharris: 95-97** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 95 | SW3.32 | Commercial Field, Treharris | ++ | ++ | + | + | + | ++ | ? | + | 0 | 0 | + | ++ | - | + | ? |
| 96 | SW3.34 | Twynygarreg/Tir Derw, Treharris | ++ | ++ | + | ++ | + | ++ | ? | - | ? | ? | + | -- | 0 | + | ? |
| 97 | SW3.33 | Cilhaul | ++ | ++ | + | + | + | ++ | ? | - | - | ? | + | -- | 0 | + | ? |
| **Faenor: 111** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 111 | SW3.2 | Parc Sweetwater | - | + | + | + | + | ++ | ? | ++ | - | 0 | + | ++ | 0 | + | + |